**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 1af Rhagfyr 2022 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Cilcennin**

Yn bresennol: y Cynghorydd Iwan Thomas (Cadeirydd), y Cynghorwyr, Nigel Davies, Robert Davies, Helen Evans, Arwel Jones, Eirlys James-Evans, Tina Jones, Alwen Thomas a Ray Williams.
Y Cynghorydd Sir Marc Davies
Denfer Morgan (Clerc).

**56 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Michelle Davies am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**57 Datgelu Buddiant**

Fe ddatgelodd y Cynghorydd Nigel Davies fuddiant personol ac un sy'n rhagfarnu yng nghais cynllunio A220839 yng nghofnod 61 isod.

**58 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Tachwedd 2022.

**59 Materion yn codi o'r Cofnodion**

Cofnod 43 Adeilad Ysgol Cilcennin. Dywedodd y Cynghorydd Ray Williams ei fod wedi parhau gyda'i ymchwil parthed statws gwreiddiol yr Ysgol ac yn bwriadu mynd i'r Archifdy yng Nghaerfyddin i geisio cael rhagor o wybodaeth

**60 Materion Cyllid**

**PENDERFYNWYD** talu'r canlynol:

*Cyflog y Clerc (Hyd-Tach-Rhag)*
Denfer Morgan - £386.50
CThEM (TWE) - £96.62

**61 Materion Cynllunio**

Rhoddwyd ystyriaeth i gais cynllunio A220839 *Land adj. to Felin Tyglyn, Ciliau Aeron. Field barn with associated hardstanding and new access with associated hedgerow translocation and visibility splay.*

**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad mewn egwyddor i'r sgubor arfaethedig ond yn gwrthwynebu creu'r fynedfa newydd gan fyddai hyn yn golygu gwneud i ffwrdd â chlawdd aeddfed a bod y fynedfa presennol yn addas i gerbydau gael mynediad i'r cae a'r sgubor newydd. Byddai creu mynedfa llai i gerddwyr fan hyn er mwyn hwyluso mynediad o'r adeiladau gyferbyn yn dderbyniol i'r Cyngor. Cwestiynir yr angen am dri lle parcio ar gyfer sgubor.

**62 Mynwent Eglwys Cilcennin**

Dywedodd y Clerc nad oedd datblygiadau pellach i adrodd. Cytunwyd paratoi amcangyfrifon ar gyfer y prosiect i drafod yng nghyfarfod y Cyngor ym Mis Ionawr pan fydd y Gyllideb ar gyfer 2023-24 yn cael ei baratoi.

**PENDERFYNWYD** nodi'r sefyllfa bresennol.

**63 Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru Dyfodol Cymunedau Cymraeg**

Rhoddwyd ystyriaeth i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru Dyfodol Cymunedau Cymraeg.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Aelodau i fwrw golwg dros y cwestiynau a dod ag unrhyw sylwadau i'r cyfarfod nesaf.

**64 Unrhyw Fater Arall**

**PENDERFYNWYD:**

a) gofyn i'r Cyngor Sir drwsio golau stryd ger Maes Hydd, Ciliau Aeron
b) gofyn i'r Cyngor Sir drwsio darn o'r ffordd i'r gogledd o Gilcennin ger Blaenyresgair
c) nodi fod yna trefniadau mewn llaw i drefnu mannau cynnes yn y gymuned.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:30pm